WG35.5-48

# MARWNAD,

ER COFFADWRIAETH

O

*FYWYD A MARWOLAETH*

## HANNAH EVANS,

O Goylanfelen, yn Mhlwyf Llangeler; yr hon a ymadawodd â'r Byd hwn, Mawrth y 4ydd, 1812.

---

"Nac ymffrostia o'r dydd foru; canys ni wyddost beth a ddygwydd mewn diwrnod."

---

1 HEN ac ieuaingc, dewch i 'styried,
Angeu'n taro yn ddiarbed!
Heb ddim rhybudd, ar ryw brydiau,
'R drwg a'r da mae'r un damweiniau.

2 'R o'wn i'n meddwl yn y bore,
Cawn i dd'od yn iach i'm cartre';
Ar y ffordd, yn mhen yr heol
Gorfod myn'd i'r byd trag'wyddol!

3 Pan o'wn i'n ieuangc, bum yn ufudd
Mi gym'rais broffes deg o grefydd;
Fy Nuw a'm cadwodd hyd y diwedd,
Rhag ymhyfrydu mewn oferedd.

4 Oddi wrthyf fi cymmerwch rybudd,
A cherddwch ar eich gliniau beunydd;
Ac os cenad gaiff yr angeu,
Ni bydd yn well i chwi na finnau.

X205
296W

5 Mae'r Goruchaf, wrth ei alwad,
Yn dweud ei fod yn Dad ymddifad,
Ac yn Frawd mewn awr o g'ledi,
I bob enaid sy'n ei garu.

6 Pan oedd fy mhen i'n cael ei friwo,
Iesu yn eiriol drosof yno;
Fe'm cymmerodd yn ei fynwes,
I gael rhan a'r nefoedd gynnes

7 Cariad Iesu fyddo'n helaeth,
Yn mhob calon trwy'r gym'dogaeth,
A'r briodas wisg yn barod,
Am dy enaid cyn ymddattod.

8 Trwy ffydd mae *Hannah* fach yn llawen,
Na byddwch ar ei hol yn llefain,
Hi aeth adref gydâ'i Phriod,
Lle na ddaw gofid i'w chyfarfod.

9 Ni all llygad byth ei weled,
Nac un galon ei ystyried,
Nac un tafod byth fynegi,
Yr hir lawenydd mawr sydd iddi.

10 Mae gair Duw yn uchel alw
Am ed feirwch cyn ein marw,
A ffydd yn Nghrist, y cyfaill anwyl,
Cyn del angeu wrth y sawdl.

11 O, tra byddom ar ein siwrnai,
Olew newydd yn ein lampau,
Haeddiant Crist a hedd y Duwdod,
Cyn b'o angeu ein cyfarfod.

12 Awn yn fynych ar ein gliniau,
At Dduw i chwynu ein gwinllanau,
Fel y byddo'n gerddi'n barod,
Cyn del angeu i'n cyfarfod.

13 O mor wired ni a hithau,
Fyn'd dan ddwylo oerion angeu,
Am waed yr Oen i olchi'n pechod,
Cyn del angeu i'n cyfarfod.

14 'Rwyt ti wrth y gadwyn yma,
Ce'ſt dynu'th golyn ar Galfaria,
Nid oes niweid o'th gyfarfod,
Er bydd dychryn yn dy wyddfod.

15 Nid oes fath rodd ar wyneb daear,
A chael meddu Ieſu hawddgar,
Dyſgwyl wrtho fel dy Briod,
Fe'th wareda o bob trallod.

16 Dewch yn mlaen i'r ordinhadau,
Fan y bo'ch yn caru oreu,
Rhowch eich pwys ar Dduw o'r galon,
Chwi gewch fendith ar y moddion.

17 Ar y ſwper mae e'n caru,
Yn y ſwper mae'n dyddanu,
Yn y ſwper mae yn erno
Yr enaid ſydd yn credu ynddo.

18 Dewch i wleddoedd y Jehofa,
Lle mae danteithion o'r melusa',
Mae ef heddyw'n galw'n g'ruaidd,
Yn yr yſgrythyrau ſanctaidd.

19 Ar y swper chwi gewch ddigon,
Teyrnas nefoedd yn y galon,
Cariad, ffydd, a gobaith hefyd,
A geidw'n traed ar lwybr bywyd.

20 Byddwn ddiwyd tra b'om yma,
Cyn dybeno ein cynhaua',
Mi ddymunaf wel'd bob teulu
'N gwasanaethu'r Arglwydd Iesu.

21 'Rwy'n 'sgrifenu hyn o leiniau
Lawr, o gariad at eneidiau,
Hiraeth s' arna'i am wel'd miloedd
Yn trafaelu llwybrau'r nefoedd.

22 Efengyl Iesu ydyw'r moddion
Gan Dduw yn argyhoeddi dynion;
Ar ei haden aeth trwy'r holl-fyd,
Trwy arddeliad y Glân Ysbryd.

23 Bendith Duw ar yr ymweliadau,
Sy'n ein cyfarfod hwyr a borau;
Duw, gwna bob peth i'n haddfedu,
A'n cymhwyso i wlad goleuni.

24 Un fil wyth cant wyf yn feddwl,
Oedran Crist fy Mhrynwr anw'l,
Deuddeg mlwydd a rifa'i ato,
Gwnes i'r gân, Duw a'i bendithio.

*Ann Jones, o blwyf Llanpumsaint, a'i cânt.*

---

Caerfyrddin, argraffwyd gan J. Evans.

LW 2766